PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 18 | Mai 4, 2023 | 50c.

## GWEINIDOGAETHU MEWN CYFNOD O NEWID
# Diwrnodau'r Gweinidogion

Hyfryd oedd gweld nifer dda iawn o weinidogion wedi ymuno yn y cyfarfodydd a drefnwyd gan yr Undeb ar eu cyfer yn y de ac yn y gogledd ddiwedd mis Mawrth. Y thema yn y ddau leoliad, sef gwesty'r Eryrod yn Llanuwchllyn a festri Bethania Tymbl oedd: 'Gweinidogaethu mewn cyfnod o newid.' Mae'r byd yn newid ac yn datblygu'n ddyddiol, a her gyson yr eglwysi a'r Gweinidogion yw darparu tystiolaeth i gariad Duw yn Iesu Grist, a rhannu'r Efengyl yn y newid a'r datblygu cyson hwn. Rhannwyd y diwrnodau i dair sesiwn:

### Sesiwn 1 – Astudiaeth Feiblaidd

Mae newid a datblygu'n thema amlwg yn y Gair, ac yn y sesiwn hon, cafwyd cyfle i edrych ar hynny, a daearu'r enghreifftiau i'n cyfnod a'n sefyllfaoedd unigryw ni. Gwnaethpwyd hyn yn y gogledd dan arweiniad y Parchg Huw Dylan Jones, Llangwm. Cychwynnodd drwy roi ychydig o gefndir. Yna, fe greodd linell oedd hefo 'Cytuno' ar un pen, ac 'Anghytuno' ar y pen arall, a thaflu gwahanol bynciau atom, a gofyn ble ar y llinell fyddem ni'n sefyll wrth ystyried y pwnc. Yn naturiol, roedd barn bersonol a moeseg yn dylanwadu ein hymateb, ond yr her oedd ymateb a chadw'n ffyddlon i'r Gair hefyd. Yn y de, cawsom ein harwain gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Caerdydd. Cawsom gyflwyniad arbennig ar y thema, 'Y gallu sydd ganddo o'n plaid', geiriau sy'n dod o Effesiaid 1:19. Anogwyd ni i gyd-ddarllen â'n gilydd, a chyd-drafod cyfres o gwestiynau, a'r cyfan yn gyfle inni rannu a derbyn oddi wrth ein gilydd.





### Sesiwn 2 – Y bont a'r afon

Wrth i'r byd ddatblygu'n barhaus, ble mae'r Eglwys yn perthyn yng nghanol hynny? Oes gennym rôl i'w chwarae? Beth yw ein neges? Dyna rai o'r pynciau a drafodwyd dan arweiniad Carwyn Graves, swyddog cyfathrebu a chenhadaeth Undeb Bedyddwyr Cymru. Yn anffodus, nid oedd Carwyn Graves yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd, ond drwy gyfrwng technoleg, cafwyd cyflwyniad arbennig. Ymhlith y delweddau a rannodd, oedd un o bont. Roedd y bont yn sefyll ar y tir, a'r afon gerllaw. Roedd y bont yn ymddangos yn y lle anghywir, ond y gwir oedd mai'r afon oedd wedi symud. Tybed os yw'r bont wedi aros yn ei hunfan yn ein cyd-destun ni, ond yr afon wedi symud? Ac wrth ystyried dull newydd o groesi'r dŵr, beth fydd y dull fwyaf effeithiol?

### Sesiwn 3 – Cariad cyson Duw

Gall newid fod yn anodd ac yn heriol, ond yng nghanol pob newid a datblygiad, mae ffyddlondeb a chariad Duw yn gyson! Dyna oedd byrdwn cyflwyniad y Parchg Casi Jones, Bangor yn y gogledd, a'r Parchg Jill-Hailey Harries, Abertawe yn y de, gyda'r ddwy yn ein harwain mewn ffyrdd gwahanol i ystyried a thrafod cysondeb Duw.

Yn ychwanegol i'r prif sesiynau, cafwyd defosiwn gan y Parchg Carwyn Siddall yn y gogledd, a gan y Parchg Robin Samuel yn y de. Hefyd, hyfryd oedd cael croesawu'r Parchg Aled Davies atom o Gyngor Ysgolion Sul a Chyhoeddiadau'r Gair i rannu ychydig am yr adnoddau diweddaraf sydd ar gael, a manteisiwyd ar y cyfle yn y gogledd i gyflwyno copi cyntaf o'r gyfrol *O Ddydd i Ddydd* i'r Parchg Iwan Llewelyn Jones, sef golygydd y gyfrol newydd hon.

### Cyfarfod eto

Wrth gysylltu â'r gweinidogion i'w gwahodd i'r diwrnodau hyn, nodwyd y byddai'n gyfle 'i ddod at ein gilydd i wrando, i dderbyn ac i rannu,' ac yn sicr, dyna a gafwyd. Bydd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yn cael eu rhannu'n fuan, a mawr obeithiwn y bydd cymaint o weinidogion a phosib yn neilltuo amser i fynychu'r diwrnodau. Yn sicr, cafwyd bendith, a diolch diffuant i'r rhai fu'n paratoi'r sesiynau a'r cyflwyniadau ein cyfer, ac i gyfeillion yr Eryrod, Llanuwchllyn a Bethania, Tymbl am eu lletygarwch.

**Parchg Carwyn Siddall**
**Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau**




# THOMAS ROWLANDS, MADAGASCAR 1852 – 1921

*Dyma ran gyntaf erthygl ar y gwron o Sir Benfro gan y Parchg Geoffrey Eynon*

Roedd oedfa brynhawn cwrdd chwarter Cyfundeb Penfro yng Nghapel Trefgarn Owen ger Breudeth ar 27 Mai 1936 yn achlysur arbennig iawn. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchg P. E. Price, Glandŵr, cadeirydd y cwrdd chwarter, ac wrth groesawu'r gynulleidfa luosog, dywedodd ei bod hi fraint i weld cymaint yn bresennol mewn cyfarfod mor arbennig yn hanes yr eglwys. Nid yw gosod cofeb ar fur capel er cof am weinidog yn anarferol, ond mae gosod cofeb i gofio am genhadwr yn ddigwyddiad prin iawn.

## Llewyrchu goleuni'r Efengyl

Roedd y Parchg Thomas Rowlands yn un o'r bobl fwyaf llwyddiannus a aeth i'r maes cenhadol. Mae aelodau'r eglwys yn Nhrefgarn Owen yn falch iawn bod un o'u plith oedd wedi ei ddylanwadu gan ysbryd y genhadaeth ac wedi aberthu llawer er mwyn i oleuni'r efengyl lewyrchu ym Madagascar.



Mewn erthygl a welwyd yn *Chronicle* Cymdeithas Genhadol Llundain ym mis Gorffennaf 1921, talwyd teyrnged i Thomas Rowlands fel hyn:

> Thomas Rowlands passed away. No, nothing more is impossible. As long as Madagascar remains, and there are Christian people on the island, the story of Thomas Rowlands will be told by father to son, mother to daughter, and so he will have his perpetual memorial in the affection of people for whom he gave his all.

## Jacob, Abergwaun

Yn yr oedfa yn Nhrefgarn Owen, talwyd teyrngedau i Thomas Rowlands gan nifer o weinidogion y Sir. Ar ddiwedd ei anerchiad, dywedodd y Parchg H. T. Jacob, Abergwaun: 'fod yna dair cofeb yn addurno muriau'r capel – un er coffadwriaeth am weinidog annwyl a wasanaethodd am nifer o flynyddoedd yn yr eglwys. Mae yna gofeb i'r bechgyn gollodd eu bywydau yn rhyfel 1914–18, ar drydedd gofeb i gofio am genhadwr parchus. Pe byddai'r byd wedi gwrando ar y gweinidog, ac ar y cenhadwr, ni fyddai angen cofeb i gofio am y bechgyn aeth i ryfel.'

## Teulu dylanwadol

Roedd gan y Parchg Thomas a Mrs Elizabeth Rowlands chwech o blant, tri ohonynt yn genhadon. Mrs Myfanwy Bryant, BA, yn genhades yng ngogledd Tsieina, y Parchg Edward Rowlands, BA, BD yn Genhadwr yng nghanolbarth Tsieina, y Parchg. W. J. Rowlands, BA, BD, yn genhadwr yn Hankow, Tsieina. Yna y gweddill; Dr Samuel Rowlands, MB, B.Sc., Doncaster a'r Parchg H. M. Rowlands, Mus.Bac., Efrog Newydd.

Dadorchuddiwyd y gofeb gan un arall o'r meibion sef, y Parchg Emrys Lloyd Rowlands, gan ddweud ei fod yn ei ddadorchuddio: 'Er gogoniant i Dduw, ac er coffadwriaeth falch a hapus o waith fy nhad.'


## Troeon yr yrfa

Ganwyd Thomas Rowlands ar 25 Mai 1852 ar fferm Little Hook, Trefgarn Owen. Roedd ei dad, Timothy Rowlands yn frodor o Gas-mael yng ngogledd y sir, a'i fam Margaret o ardal Mathri, sydd rhwng Tyddewi ac Abergwaun. Fel plentyn nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau. Ond yn saith mlwydd oed dechreuodd fynychu ysgol y pentref, sydd tu ôl i gapel Trefgarn Owen. Yn ifanc iawn, ac o dan ddylanwad ei rieni, mynychodd, a daeth yn aelod yng nghapel Trefgarn Owen. Wrth weithio mewn siop fasnachol ei ewythr yn nhref Hwlffordd, daeth i gysylltiad ag eglwys Annibynnol Albany yn y dref. Pan fu farw ei ewythr, penderfynodd Thomas Rowlands ehangu ei orwelion a symud i Aberdâr, gan ddod yn aelod yn eglwys Siloa. Gydag amser, ac o dan arweiniad yr Ysbryd symudodd i Dreherbert, ac yn fuan cafodd gyfle gan weinidog Carmel i bregethu. O fewn ychydig amser fe'i derbyniwyd yn ymgeisydd i'r weinidogaeth, ac ym mis Mawrth 1875 fe'i derbyniwyd i Goleg Bala. Ei gyfoedion yno oedd Hopkyn Rees a William Owen, y ddau ohonynt hwy a'u bryd ar feysydd cenhadol hefyd.

## I Fadagascar

Ordeiniwyd Thomas Rowlands yng Ngharmel, Treherbert ar 1 Ebrill 1879. Priododd Elizabeth Lloyd, oedd yn aelod yng nghapel yr Annibynwyr Saesneg Bwlch-y-ffridd, ger y Drenewydd. Ar 16 Mai 1879 dechreuwyd ar y daith i Fadagascar, a chyrraedd Tananarive ar 6 Medi, yna ymlaen i Ambohimandroso, tref o tua 5,000 o boblogaeth, a chyrraedd yno erbyn 6 Tachwedd 1879.

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.




**Penderfyniadau 2023**

Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, 28–30 Mehefin.

Dyma'r amser i gyflwyno penderfyniadau i'w trafod gan y Gynhadledd.

Dylai rhybudd o bob penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn dydd Llun, **15 Mai** fan bellaf.

Yr Adran
Gydenwadol

MAI 4 2023 RHIF 114

# Asbri'r diwygiad ymhlith myfyrwyr Asbury

Yn ddiweddar, aeth tri ohonom o Ffald y Brenin, ein canolfan encil a gweddi yn sir Benfro, i Nashville, Tennessee, ar gyfer cynhadledd ar weddi a diwygiad. Un o'r cyfarfodydd yr wythnos cyn hynny ar y we er mwyn ein paratoi ar gyfer y gynhadledd oedd darlith am y diwygiad yn Asbury yn 1970. Pan dynnodd y siaradwr yn ôl, fe geision nhw gael rhywun arall yn ei le, a dod o hyd i rywun addas (oedd yn bresennol yn 1970). Ei ymateb oedd, 'Ydych chi'n golygu 1970 neu 2023 ... mae wedi dechrau eto dair awr yn ôl!'

Fore Mercher, 8 Chwefror, fe dorrodd diwygiad allan ym Mhrifysgol Asbury yn Wilmore, Kentucky. Fe ddechreuodd pethau ar ôl y cyfarfod gweddi a'r addoliad arferol yn Neuadd Hughes pan benderfynodd y myfyrwyr aros yno ym mhresenoldeb Duw. Coleg â chysylltiad efo'r eglwys Fethodistaidd yn yr Unol Daleithiau yw Asbury, ac fe fu'n lle o ddiwygiad o'r blaen, yn arbennig felly yn 1970 pan gafwyd diwygiad a fyddai'n cael effaith pellgyrhaeddol ar Fethodistiaeth yn yr Unol Daleithiau ac ar dwf Mudiad Iesu (Jesus Movement).

Er na wnaethon ni'r daith dair awr i Brifysgol Asbury, fe gwrddon ni â sawl un a wnaeth hynny. Roedden nhw'n disgrifio torfeydd mawr, yn aml y tu allan i'r adeiladau, gyda'r ffocws nid ar bobl na llwyfannau, ond ar ymdeimlad gwahanol, tawel o bresenoldeb Duw ac o weddi.

O ran arwyddocâd hyn, nid yw'n ymwneud â'r lle mewn gwirionedd oherwydd bod y digwyddiadau yn Asbury wedi cael eu dwyn i ben wythnosau yn ôl (24 Chwefror) er mwyn galluogi'r brifysgol i weithredu. Fodd bynnag, wedi hynny bu adroddiadau am lawer o ddigwyddiadau tebyg, i ddechrau ar gampysau myfyrwyr yn yr Unol Daleithiau ac yna'n fwy diweddar ar draws y byd, fel arfer lle mae pobl yn dewis oedi ar ôl i gyfarfod ddod i ben, yn syml, er mwyn aros ym mhresenoldeb Duw. Er enghraifft, digwyddodd hyn un noson yng Ngŵyl Llanw yng Nghymru wedi'r Pasg, a gwn yn bersonol am eglwysi yn Llundain a Melbourne lle digwyddodd yn ddiweddar hefyd.

Mae rhai pethau i'w nodi: mae Asbury yn brifysgol lle roedd presenoldeb mewn 'capel' fwy neu lai yn orfodol, sy'n awgrymu cyfran o fynychwyr anfoddog. Eto i gyd, roedd rhywbeth yn symud ymhlith y genhedlaeth a alwn ni yn Generation Z, grŵp oedran sy'n cynnwys rhai yn eu harddegau ar hyn o bryd hyd tua 25 oed. Dyma genhedlaeth sydd wedi'i heffeithio gan bryder a dryswch. Roedd rhywbeth gwahanol ar waith yma, a doedd dim sylw yn y symudiad i dechnoleg na'r cyfryngau, na ffocws ar unigolion na phersonoliaeth. Awgrymodd rhywun yn ddiweddar y byddai symudiad nesaf Duw yn cael ei nodweddu gan 'lef ddistaw fain Duw'– ac mae'r disgrifiad hwnnw i'w weld yn ffitio yma. Clywais mai'r sbardun allweddol i'r hyn ddigwyddodd yn Asbury oedd i fyfyriwr oedd wedi lledaenu clecs ffug a niweidiol o amgylch y campws deimlo rheidrwydd i edifarhau'n gyhoeddus am hynny. Mae llawer hefyd wedi gwneud sylwadau ar yr arweinyddiaeth hanfodol ond diymhongar y tu ôl i'r llenni a helpodd i stiwardio a diogelu'r tywalltiad yma o'r Ysbryd Glân.



Llun: Mollie Landman Hunker; CC BY-SA 4.0

Neuadd Hughes, Prifysgol Asbury

Fe ledaenwyd y newyddion am y tywalltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol, oherwydd mai felly mae'r genhedlaeth oedd ynglŷn â'r tywalltiad yn cyfathrebu, ond nid yno yr oedd y ffocws. Roedd y ffocws ar fod yno'n bresennol yn gorfforol, ac fe ddaeth tua 15,000 bob dydd i fod yn rhan ohono. Erbyn y diwedd yr oedd rhwng 50 a 70 mil o ymwelwyr wedi dod i Wilmore, gan gynrychioli dros 200 o sefydliadau academaidd a llawer o daleithiau a gwledydd.

Ydy hyn yn ddeffroad nerthol? Na, o leiaf ddim eto. Ai 'cwmwl maint llaw dyn' ydy o? Rwy'n credu hynny, ac rwy'n canfod nodweddion diwygiad ynddo, yn enwedig y sylw a roddir i Dduw ei hun a bod symudiadau Duw yn cyffwrdd â'r rhai ar yr ymylon (e.e. plant yn niwygiad 1859). Mae'r hyn sy'n digwydd ymhlith Cenhedlaeth Z (Gen Z) yn ffitio'r disgrifiad hwn. Wrth gwrs, dylem gydnabod bod rhannau helaeth o'r byd yn profi, neu wedi profi, diwygiad yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac nad yw ein sefyllfa ni yn y Gorllewin yn un nodweddiadol wrth edrych ar yr eglwys ledled y byd.

Felly sut ddylen ni ymateb? Rwy'n credu y dylen ni gymryd yr adroddiadau hyn fel anogaeth gan Dduw: i weddïo, i gredu, i fod yn ddisgwylgar ac i baratoi ein hunain. Credaf hefyd y dylem weddïo'n benodol dros y cenedlaethau iau (yn enwedig y rhai o dan 30 oed) a gwneud beth bynnag allwn ni i'w hannog, eu cyrraedd a'u galluogi. Pan oedden ni yn yr Unol Daleithiau gwelsom y ffilm *Jesus Revolution* mewn sinema, cyd-ddigwyddiad diddorol o ran amseru. Mae'n disgrifio adfywiad diwedd y 60au yng Nghaliffornia ymhlith 'hippies' ifanc a gyffyrddodd genhedlaeth gyfan. Dyma ddiwygiad a roddodd fod i enwadau fel Vineyard a Calvary Chapel, gan helpu i siapio llawer o fywyd ac addoliad eglwysig cyfoes y Gorllewin. Ychwanegodd adfywiad Asbury ym 1970 fywyd ffres mewn modd sylweddol i'r mudiad hwn. Byddwn yn annog pob eglwys i'w gosod ei hun mewn man lle gall Duw ei defnyddio fel bydwraig ar gyfer Mudiad Iesu newydd!'

*Clive Orchard*
*Warden ac Arweinydd Tîm*

# ‘Gosod yr unig mewn cartref’ – gall pawb helpu!



Roedd yn fraint yn ystod cynhadledd Llanw eleni cael fy ngwahodd, ynghyd ag Angharad Clwyd, fy nghyd-weithiwr a chyd-ofalwr maeth, i roi sgwrs ar fabwysiadu a maethu, ar ein profiadau ohono a’r modd y mae ein ffydd wedi ein hysbrydoli ar hyd y daith.

Mae Salm 68, adnod 6, yn ein hysbysu bod Duw yn gosod yr unig mewn cartref. Yn wir, mae’n amhosibl darllen y Gair heb weld mor werthfawr ydi plant a phobl ifanc yng ngolwg Duw, a sut y mae wedi ordeinio eu gosod mewn cartrefi. Mae Duw drwy ei air yn gofyn inni adlewyrchu ei gariad, i ddangos ei gariad i’n gilydd, a dyma sydd wedi ein cymell ar hyd llwybr mor gyffrous, mor anodd ei rag-weld – un sydd hefyd, ar brydiau, yn unig.

Fe ddechreuon ni drwy gymryd golwg sydyn ar ddiwinyddiaeth mabwysiadu, sy’n esbonio sut mae Duw wedi ein mabwysiadu ni gan roi lle i ni yn ei deulu. Mae hefyd yn ein hatgoffa yn Rhufeiniaid 8 ein bod ni wedi ein mabwysiadu, ac yn ein hatgoffa eto yn Galatiaid 4, adnod 5, ein bod wedi ei mabwysiadu i mewn i’w deulu ef. Mae hyn ynddo’i hun yn wirionedd ac yn anrhydedd rhyfeddol, ac ar lefel bersonol wedi bod yn gymhelliad grymus i’n taith drwy fabwysiadu a maethu.


Fodd bynnag, mae Angharad a minnau ein dwy’n ymwybodol nad ydi pawb wedi ei alw i agor eu cartrefi. Fe all fod amgylchiadau teulu anodd neu nad yw gyrfa’n caniatáu hynny, neu efallai dim lle yn y tŷ! Ond dydi hyn ddim yn eithrio pobl rhag ymuno â’r daith.

Mae’r sefydliad Home for Good yn ein cefnogi ac yn ein annog i gyd fel teulu’r Eglwys i fod â rhan yn y daith. Mae’n daith o degwch cyfiawn, o letygarwch, teulu ac eglwys. Bu inni edrych felly pa ran y gallen ni fel Eglwys ei chwarae yn y gwaith o gefnogi teuluoedd sy’n mabwysiadu ac yn maethu. Allen ni ddarparu pryd o fwyd i’r teuluoedd hynny? Allen ni gynnig gwarchod iddyn nhw? Oes gennym ni sgiliau fyddai’n help i’w cynnal? Ydi ein plant wedi tyfu allan o ddillad y gallen ni eu pasio ymlaen? Oes gennym ni deganau, dillad gwely ac ati, fyddai’n gymorth i’r teuluoedd yma wrth iddyn nhw groesawu plant i’w cartref a chynnal plant bregus? Mae gweddi hefyd yn hanfodol wrth inni gael ein galw i garu a bod yn rhieni i’r plant yma; fel eglwysi, fe allwn ni anrhydeddu’r teuluoedd hyn yn ein gweddïau beunyddiol. Mewn geiriau eraill, mae gennym ni i gyd ran i’w chwarae; fe allwn ni i gyd fod yn rhan o’r daith i drawsnewid bywydau’r plant yma.

Wrth ddwyn y seminar i ben, fe gawsom rannu o ddaioni Duw, ei ddarpariaeth ar ein cyfer a’i garedigrwydd tuag atom ni ar hyd y daith. Mae hi’n daith galed, yn un lawn her, ond yn fraint enfawr, ac yn siwrnai sy’n ein galluogi i ddangos y cariad sydd gan Iesu ar gyfer y plant a’r bobl ifanc rhyfeddol yma.

Os hoffech chi wybod mwy neu gael sgwrs ynglŷn â’n teithiau mabwysiadu a maethu ni, mi fydd Angharad a minnau wrth ein bodd yn siarad efo chi. Am wybodaeth bellach ewch i wefan hyfryd Home for Good, ac mae gan Maethu Cymru bentwr o wybodaeth a fideos yn cyflwyno profiadau gofalwyr maeth eraill.

*Sian Edwards ac Angharad Clwyd*
*Coleg y Bala, Ffordd Ffrydan , Y Bala*
*(01678) 520565*
colegybala@ebcpcw.cymru





## Gweddi Dros Ysgolion – Cyfarfod Gweddi dros Zoom

Dewch, ymunwch â ni ar gyfer ein cyfarfod gweddi Zoom nesaf nos Iau,
4 Mai 2023, am 7yh

I dderbyn y ddolen i’r cyfarfod,
archebwch eich lle wrth glicio ar y ddolen:

Gweddi Dros Ysgolion: Cyfarfod Gwedd Pray For Schools in Wales: Prayer Zoom Tickets, Thu 4 May 2023 at 19:00 | Eventbrite



# ADNABOD Cymeriadau'r Hen Destament

## ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 22 – Cadarnhau'r addewid am fab i Sara

### Darllen Genesis 17:15–22

Eto fyth yr wythnos hon, daw'r fantais o ganiatáu i'r Beibl ddehongli'r Beibl i'r golwg. Wrth ystyried yr adnodau hyn mae yna ddau beth sy'n dod i'r golwg o'r dechrau. O ran yr addewid am blentyn i Sara, cadwch mewn cof y gwirionedd yna yn Salm 103: 'Ni wnaeth â ni yn ôl ein pechodau, ac ni thalodd i ni yn ôl ein camweddau' (adn. 10). Roedd y ffordd yr oedd Sara wedi cefnu ar addewid Duw drwy ildio'i llawforwyn i Abraham, a'r ffordd yr oedd yntau hefyd wedi cydsynio â hynny, braidd yn eu gosod y tu allan i ewyllys Duw. Y rhyfeddod yma eto yw'r gwirionedd fod Duw yn sicr o ddod â'i fwriadau i ben, ac wrth i'r addewid gael ei ailadrodd a'i gadarnhau rydym yn cael golwg eto ar y gwirionedd mai sefyll o dan y cyfamod gras yr oedd Sara, fel Abraham. Yn wir, mae'r addewid am y plentyn yma'n dyrchafu Sara mewn ffordd sy'n gwbl wrth-ddiwylliannol.

Mewn cyd-destun patriarchaidd, cawn y pwyslais yma ar fendithio matriarch-aidd: 'ie, bendithiaf hi, a bydd yn fam i genhedloedd, a daw brenhinoedd pobloedd ohoni (adn. 16). Mi fyddai Sara yn fam i frenhinoedd. Ac mae gweddill yr Hen Destament yn olrhain sylweddoliad yr addewid yma, nes inni gyrraedd yr un brenin, yr had, yr un yr oedd y bobl ar Sul y Palmwydd yn ei gyfarch wrth iddo ddod i mewn i Jerwsalem, 'Wele dy frenin yn dod atat' (Mathew 21:5).

Yn wir, edrych ymlaen at y brenin yma fu pobl Dduw o'r dechrau. Sylwch ar eiriau Jacob wrth fendithio'i feibion yn Genesis 49:10: 'Ni fydd y deyrnwialen yn ymadael â Jwda, na ffon y deddfwr oddi rhwng ei draed, hyd oni ddaw i Seilo; iddo ef y bydd ufudd-dod y bobloedd.' Yna, cawn eiriau Balaam yn Numeri 24:17: 'Fe'i gwelaf ef, ond nid yn awr; edrychaf arno, ond nid yw'n agos. Daw seren allan o Jacob, a chyfyd teyrnwialen o Israel'. Ganrifoedd yn ddiweddarach cawn Eseciel yn proffwydo: 'Byddaf yn gosod arnynt un bugail, fy ngwas Dafydd, a bydd ef yn gofalu amdanynt; ef fydd yn gofalu amdanynt ac ef fydd eu bugail. Myfi, yr ARGLWYDD, fydd eu Duw, a'm gwas Dafydd fydd yn dywysog yn eu mysg; myfi, yr ARGLWYDD, a lefarodd' (Eseciel 34:23–4). Tra mae Abraham yn cael addewid am fab, yn awr cawn weld pam mai ystyr y gair Sara yw tywysoges, y rhain sy'n geni brenhinoedd.

Yn ail, wrth ystyried ymateb Abraham yn adnod 17, mae'n rhwydd tybio ar yr olwg gyntaf fod yna amheuaeth o addewid Duw wrth iddo ymgrymu o'i flaen: 'ond chwarddodd ynddo'i hun'. Mae'r Beibl am esbonio'r ymateb yn Rhufeiniaid 4. Yno mae Paul yn egluro'r hyn sy'n digwydd yma: 'Er ei fod tua chant oed, ni wanychodd yn ei ffydd, wrth ystyried cyflwr marw ei gorff ei hun a marweidd-dra croth Sara. Nid amheuodd ddim ynglŷn ag addewid Duw, na diffygio mewn ffydd, ond yn hytrach grymusodd yn ei ffydd a rhoi gogoniant i Dduw, yn llawn hyder fod Duw yn abl i gyflawni'r hyn yr oedd wedi ei addo. Dyma pam y cyfrifwyd ei ffydd iddo yn gyfiawnder' (adn. 19–22).

Ffactor arall sy'n cadarnhau'r hyn a ddarllenir yn Rhufeiniaid 4 yw nad oes sôn am gerydd o'r nefoedd, fel yn Genesis 18:13–14 pan mae Sara yn chwerthin mewn anghrediniaeth. Beth bynnag, mae Duw yn awr yn dadlennu nid yn unig yr addewid am fab, ond yn rhoi enw i'r mab – Isaac, sy'n llythrennol yn golygu 'chwerthin', gan rag-weld y math o effaith y byddai'r geni yn ei gael ar y ddau yma. Yn ôl Diarhebion 17:22: 'Y mae calon lawen yn rhoi iechyd, ond ysbryd isel yn sychu'r esgyrn'. A phenllanw llawenydd Abraham a Sara fyddai'r enedigaeth yma.

Mae'n sicr ein bod i gyd yn gyfarwydd â'r profiad o beidio gwybod sut mae ymateb yn iawn, gyda'r cymysgedd o emosiynau sy'n medru llifo o ryfeddod neu syndod. Braidd na ellid priodoli teimladau Abraham i gyffes y tad hwnnw oedd â mab ym meddiant cythreuliaid: "Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd; cymorth fy anghrediniaeth i" (Marc 9:24). Mae Abraham yn parhau i feddwl fod yna fodd o sylweddoli'r addewid drwy Ismael, ac mae'n ceisio'r fendith iddo: 'O! na fyddai Ismael fyw ger dy fron.' I'r cais hwn mae yna ateb negyddol ac ateb cadarnhaol. Nid hwn fydd yr un y bydd Duw yn sicrhau'r cyfamod drwyddo, ond Isaac. Wedi dweud hynny, mi fydd yna fendith i'r bachgen yma, ac mi fydd yna etifeddiaeth hefyd.

O ran Isaac, mae'r cyfamod ag ef yn un tragwyddol, a byddwn yn cael cip ar arwyddocâd hyn wrth feddwl am adnodau olaf y bennod yr wythnos nesaf. I gloi yr wythnos hon, sylwch nawr fod Duw yn nodi manylder yr addewid: 'y mab y bydd Sara yn ei eni iti erbyn yr amser yma'r flwyddyn nesaf' (adn. 21). Yn dilyn hyn, wedi derbyn yr addewid, 'aeth Duw oddi wrth Abraham'. Rhwng penodau 16 a 17 mae yna 13 o flynyddoedd lle na chawn gofnod o Dduw yn siarad yn benodol ag Abraham; doedd dim datguddiad arbennig. Ond cofiwch, nid yw'r Beibl yn gwrth-ddweud ei hun. Os oes yna gyfnodau lle mae llais a phresenoldeb Duw yn gwbwl amlwg, mae presenoldeb Duw yn wastad yn realiti i'w blant. Cawn ein hatgoffa o hyn yn adnodau cychwynnol Salm 139, ac mae Paul yn dysgu yr un peth wrth bregethu yn Athen: 'nid yw ef nepell oddi wrth yr un ohonom' (Actau 17:27).

1. Ai gwir y gair fod elw i mi
   yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
   A gollodd ef ei waed yn lli
   dros un a'i gyrrodd ef i'w groes?
   Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
   y buost farw i mi gael byw?

   Mae Charles Wesley yn ysgrifennu'r geiriau hyn i nodi ei ryfeddod at waith grasol Duw yn ei fywyd ym mis Mai 1738, wythnosau wedi iddo ddod yn Gristion. Rhannwch rywbeth o ryfeddod gras yn eich bywyd chi.

2. Mi fydd yna lawer o siarad am frenin dros y dyddiau nesaf yma – nid bod gan y brenin hwnnw fawr o awdurdod. Sut fyddwch chi'n deall brenhiniaeth Iesu yn eich bywyd?

3. Mae yna addewidion lu yn y Beibl i Gristnogion ac i'r Eglwys. Prawf o'n cyffes yw ein parodrwydd i gredu 'yn llawn hyder fod Duw yn abl i gyflawni'r hyn yr oedd wedi ei addo' (Rhufeiniaid 4:22). Ble fyddwch chi'n pwyso ar addewidion Duw heddiw?

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 7 Mai, am 7.30yh**
**Emynau Caradog Roberts**
Nia fydd yn arwain y rhaglen arbennig yma o Rosllannerchrugog i nodi gwaith yr organydd, yr arweinydd a'r trefnydd cerdd Caradog Roberts. Bydd yr emynau cynulleidfaol o'i gasgliad o waith. Cawn gwrdd â'r cerddor lleol Brian Hughes, a fydd yn trafod cyfraniad cerddorol Caradog

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 7 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhiannon Lewis yn cyflwyno perfformiadau gan Gantorion Blaenffos

**Sul, 7 Mai, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Barry Morgan, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Colofn Geir-iau

## CICIO'R BAR

Dwi'n prysur agosáu at ddiwedd fy nghyfnod fel myfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Er bod yna domen aruthrol o waith i'w choncro cyn gorffen (a gobeithio graddio) dwi'n teimlo'n hynod gyffrous am y cyfnod sydd i ddod a throi i dudalen lân i barhau a phenodau fy mywyd.

Heddi, gan fod yr haul yn gwenu a'r awel 'bach yn oer, es i i gerdded ar hyd y promenâd eiconig. Mi roedd hi'n hyfryd. Tawel braf a dim ond sŵn crash y tonnau'n bwrw'r traeth i'w glywed. Cyrhaeddais ben draw'r prom a chicio'r bar – fel pawb arall ar draws y blynydde. Ond, cyn cyrraedd roedd y dyn hyn wedi bod yn cerdded o 'mlaen i yr holl ffordd ac fe gyrhaeddodd e at y bar cyn fi – ond na'th e ddim rhoi cic iddo fe. Boi bach od, feddyliais. Ma pawb yn cicio'r bar. Pam nad yw e'n neud e 'te? Ma hyd yn oed bwrdd gwybodaeth ar bwys y bar yn esbonio'r hyn ti fod i neud, heb sôn am y paent sydd wedi plisgo bant wrth bob esgid. Na'i gyd sydd angen iti wneud yw edrych ac fe weli di.

### Anwybyddu

Wrth gerdded am 'nôl, o'dd e'n poeni fi bod y boi 'ma heb gicio'r bar. Pam na wnaeth ddarllen y bwrdd bach gwybodaeth? Pam na'th e anwybyddu rhywbeth. Ti'n cerdded y prom i gicio'r bar. Allen i byth gyrraedd hanner ffordd a throi 'nôl heb fod 'y nhroed i'n cyffwrdd a'r pishyn bach haearn. Ond wedyn, fe ddechreues i feddwl – falle bo' jyst dim cliw 'da fe. Efallai nad oedd e'n gwybod dim am y bar. A falle bod e heb ddarllen y bwrdd gwybodaeth achos do'dd e ddim yn meddwl bod e'n berthnasol iddo fe, neu fod y darlunie yn edrych yn boring neu fod y peth o'dd 'da'r bwrdd bach i'w ddweud yn rhywbeth o'dd e'n meddwl o'dd e'n gwybod amdano'n barod. Ond wedyn, dechreuais i feddwl siwt allen i fod wedi neud gwahaniaeth? Yn lle gweld bai arno fe *poor dab*, allen i fod wedi cyflwyno'r wybodaeth iddo fe. Allen i 'di cymryd cwpwl o eiliade mas o 'nhaith i sôn am y traddodiad gan obeithio y bydde fe'n gweud diolch a rhoi cic i'r bar.

### Byw'n faterol

Ma'r cyfraddau diwethaf o bobol sy'n datgan eu hunain heb ffydd wedi cynyddu 20% ers y cyfrifiad blaenorol. Yn syml, mae hyn yn golygu nad yw pobol yn meddwl fod cael ffydd a chredu yn rhywbeth sy'n berthnasol iddyn nhw. Gallan nhw fynd trwy'u bywyd yn byw'n faterol heb unrhyw fath o grefydd yn eu bywydau. Ond eto i gyd, ma rhaid cwestiynu pam fod pobol fel hyn. Ac ma'r ddameg fach sydd uwch ben, gobeithio yn dangos. Efallai nad yw pobol yn chwilio. Efallai nad y'n nhw'n meddwl bod ffydd, Iesu, Duw, Cristnogion yn berthnasol iddyn nhw. Ac os nad ydyn nhw'n barod i edrych ac i ddarllen, mae dyletswydd arnom ni fel dilynwyr Crist i'w gwneud yn hysbys. Fel y boi bach wrth y bar, efallai ei fod e'n meddwl fod e'n gwybod beth oedd ar y bwrdd gwybodaeth ond mewn gwirionedd do'dd e ddim. Yr un peth a'r meddylfryd sydd gan bobol eu bod nhw'n gwybod am y 'stori' y tu ôl i Gristnogaeth – y Nadolig, y pregethu, y croeshoelio a'r atgyfodi – ac yn meddwl wedyn fod ganddyn nhw'r holl wybodaeth.

### Y Duw presennol

Ond na. Ma 'na lawer mwy. Ac yn fwy na dim, ma Duw yn fyw! Dim rhyw ddelw yn rhyw wlad bell yw e, ond Duw byw sy'n bresennol ymhobman, ac mae'i gariad Ef tuag atom ni yn aruthrol. Yn fwy na gall unrhyw un ddychmygu. Ma' rhaid inni felly i ddweud 'Hei, fi'n Gristion achos fi'n caru Iesu a dwi'n gwbod bod Duw yn Iesu Grist yn fy ngharu i ac mae e'n dy garu di hefyd.' Yr hyn sy'n anodd fi ar adegau yw sylweddoli nad oes gan rai pobol unrhyw syniad am y ffydd Gristnogol. Yn hyn o beth, gadewch inni fod yn genhadon i'n ffydd gan lwyr ymfalchïo yn ein crefydd a lledaenu goleuni'r Gair hyd gyrrau'r ddaear.

*Mae Gwennan yn ferch ffarm sy'n byw yn ardal Cynwyl Elfed ac yn aelod o eglwys Hermon. Mae'n astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn mwynhau canu'r piano. Ffaith ddiddorol am Gwennan yw, er ei bod yn ofn corynod, mae hi'n caru malwod!*



# DYSGU ODDI WRTH EIN GILYDD YN AMSTERDAM

Roedd yn werth codi am dri y bore i ddal yr awyren i Amsterdam! Bûm yno am dridiau ddiwedd Ebrill fel un o gynrychiolwyr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cyfarfod o Eglwysi Ewrop o Gyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) i drafod eu cenhadaeth.

Mae pump o eglwysi'n perthyn i ranbarth Ewrop o CWM: yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC), y Gynghrair Gynulleidfaol (Congregational Federation), Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Daeth cynrychiolwyr o'r pum eglwys ynghyd i Amsterdam i drafod ac ymweld â phrosiectau ar wahoddiad Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd. Bu'r tridiau'n rhai gwerthfawr iawn.

### Eglwys Betondorp

Profiad cofiadwy oedd ymweld ag eglwys newydd a blannwyd yng nghanol stad o adeiladau concrid yn Betondorp a gwrando ar y gweinidog, Margreitha Reinders, yn sôn mewn ffordd naturiol a chynnes am ei phrofiad o blannu eglwys newydd mewn ardal lle nad oes gan bobl bellach unrhyw gysylltiad â Duw. Mae'r eglwys yn cyfarfod mewn canolfan gymdeithasol a'i gweledigaeth yw bod modd gweld bywyd a blagur yn ffynnu o goncrid. Clywyd tystiolaeth gan Margreitha bod y sawl a ddaeth i gwrdd yn yr eglwys newydd hon yn nerfus iawn ar y cychwyn, a chyffyrddiad hyfryd oedd ei chlywed yn cymharu'r nerfusrwydd hwnnw â'r sawl a welodd Iesu wedi ei atgyfodiad, heb wybod pwy ydoedd, tan iddynt ddod i adnabod y Crist byw yn raddol. Calondid oedd clywed bod yr eglwys draddodiadol wedi cefnogi'r model newydd hwn o eglwys. Dyma fodel i'w gofio wrth i ni ystyried ein dyfodol ninnau.

### Etifeddiaeth caethwasiaeth

Ni ellir ymweld ag Amsterdam heb fynd mewn cwch ar y gamlas! Gwerthfawrogwyd yn fawr fod taith wedi ei threfnu ar ein cyfer, yng nghwmni'r hanesydd diwylliannol Jennifer Tosch. Hi yw sylfaenydd y

*parhad ar y dudalen gefn*

## Barn Annibynnol

# AR EGWYDDOR

Gochelwch rhag egwyddorion. Maen nhw mor beryglus. Eilunaddoliaeth yw rhoi teyrngarwch absoliwt i unrhyw beth o werth cymharol, plaid wleidyddol dyweder, neu enwad crefyddol, neu'r Beibl hyd yn oed.

Gwnaed pethau ysgeler yn enw egwyddor, a honno'n un grefyddol yn aml. Mae gormodedd o enghreifftiau.

Dyweder wrthym yn Deuteronoium bod plant Israel, pan gyrhaeddant wlad yr addewid i ddinistrio'r saith cenedl sydd yno'n barod yn llwyr, heb arbed na gŵr na gwraig na phlentyn. Dywedir wrthynt, yn enw Duw, fod hynny yn well nag i'w harferion drwg wenwyno'r Israeliaid. Dilyn egwyddor y maent wrth wneud hynny.

Ganrifoedd wedyn, yn y cyfnod Cristnogol, roedd y rheini a ymunodd yn y Croesgadau yn credu'n gydwybodol eu bod yn gweithredu ewyllys Duw, drwy ladd cymaint â phosib o Foslemiaid. Glynu at egwyddor oeddent hwythau.

### Cyfaddawdu

Bydd egwyddorion yn gwrthdaro, wrth gwrs. Gall dwy ochr fynd benben â'i gilydd, y naill a'r llall yn dilyn egwyddor.

Ers tro, gwthiwyd am ailagor Stormont. Mae'r rhaniadau yn ddwfn rhwng y garfan genedlaethol a'r garfan Brydeinig. Mae'r argyhoeddiadau yn danbaid. Er mwyn cael llywodraeth rhaid rhannu grym, ac i sicrhau hynny rhaid wrth gyfaddawd, y ddwy ochr yn cytuno i ollwng rhyw ddarn o'u hegwyddor. Oes parodrwydd i osod y bar yn is er mwyn sicrhau buddion i bawb? Heb gyfaddawd mae pawb yn dioddef.

Mae sawl carfan o weithwyr ar streic ers tro. Chwilio y maen nhw am gyflogau uwch yn wyneb yr erydu a fu ar eu gwerth. Lawn cymaint â hynny, maen nhw'n ymladd dros ddyfodol eu gwasanaeth, a thros gael eu gwerthfawrogi. Maent yn haeddu cefnogaeth.

Deallant, serch hynny, na fyddant yn ennill popeth y gofynnant amdano. Pan gânt gynnig rhesymol byddant yn barod i gyfaddawdu. Yn y diwedd dyna fydd orau i bawb.

Mae cymodi yn rhinwedd Cristnogol. Anaml y digwydd wrth i un ochr ennill yn llwyr a'r llall yn colli'r cwbl. Cyfarfod rywle tua'r canol sy'n digwydd, a'r manteision o gyfaddawdu yn amlwg iawn.

### Digyfaddawd

Beth wedyn am y mawrion nad ydynt yn barod i gyfaddawdu ar unrhyw gyfri? 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd,' meddai proffwydi'r Hen Destament. Fel hyn, ac fel hyn yn unig. Dyw llacio'r safbwynt ddim yn bosib. 'Yma y safaf.'

Ac Iesu ei hun. Mae'n ddigyfaddawd. Myn lynu at y llwybr heb wyro. Mae'n gwrthod ildio er mwyn tawelu ei erlidwyr. Cerdded ymlaen yn benderfynol a diwyro yw ei hanes. Dyna agwedd y merthyron hefyd, glynu at eu safiad a gwrthod ildio, er bod pris dychrynllyd i'w dalu. Ddiwedd y mis byddwn yn cofio marwolaeth John Penri. Gwyddai'n dda ei fod yn chwarae â thân. Roedd dwy egwyddor yn ymgodymu yn ei gydwybod: ei gyfrifoldeb i edrych ar ôl ei wraig a'i bedair merch fach, a'i angerdd dros gael yr efengyl i glyw'r Cymry.

Ei obaith oedd medru gwneud y ddau beth. Ond ni chaniatawyd hynny iddo. O achos ei safiad di-ildio cafodd ei lusgo drwy strydoedd Llundain i'w grogi.

Sut mae egwyddor weithiau'n ddrwg ac weithiau'n dda? Yn achos y proffwydi a'r merthyron ac Iesu ei hun, nhw'u hunain, a'r rhai sy'n agos atynt, sy'n talu pris, nid pobl eraill.


Dau gwestiwn i chi eu hystyried.

Ble bydden ni heb bobl o egwyddor?

Oes rhywbeth y byddwn i'n fodlon rhoi fy mywyd drosto?

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# DYSGU ODDI WRTH EIN GILYDD YN AMSTERDAM – *parhad*



'Black Heritage Tours' yn Amsterdam a rhannodd â ni o'i gwybodaeth helaeth am gysylltiad hanesyddol caethwasiaeth â'r ddinas. Fe'n croesawyd hefyd i'r Amgueddfa Lutheraidd am drafodaethau pellach.

### Newyddion

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle hefyd i glywed adroddiadau gan Eglwysi CWM Ewrop. Roedd clywed am gymaint y maent yn ei gyflawni yn codi'r galon. Hawdd iawn i ni feddwl ein bod yn syrthio i gyflwr enbyd o ddirywiad a bod popeth a wnawn yn methu. Yr un yw'r heriau ym mhob gwlad a phob traddodiad eglwysig, ond braf oedd cael cyfle i agor ein meddyliau ac i weld sut y gallwn wynebu'r heriau drwy ddysgu oddi wrth ein gilydd.

### Prosiectau CWM

Ychwanegwch areithiau gan gyfeillion o Eglwys Brotestannaidd Amsterdam, ynghyd ag araith gan y Parchg Ddr Jooseop Keum, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM a soniodd am y Prosiect Onesimus a lansiwyd ym mis Awst 2022. Dangosodd fel y mae'r prosiect yn cynorthwyo'r Cyngor i hunanfyfyrio wrth drafod caethwasiaeth yn ei gyd-destun hanesyddol a chyfoes ac i ddirnad o'r newydd ei chenhadaeth o gyfiawnder a thegwch heddiw.

Ychwanegwch hefyd sesiwn ar 'Life Flourishing Mission', defosiwn bendithiol, trefniadau ardderchog a chwmni da, a do, bu'n dridiau gwerth chweil a bendithiol iawn.

Da oedd cael bod yno. Diolch am y fraint o gael eich cynrychioli.

**Beti-Wyn James**

# Taith i weld Y Filltir Aur – ond nid i Blackpool!



Ar ddiwrnod olaf mis Mawrth fe fentrodd criw o aelodau'r Tabernacl, Dolgellau ynghyd ag un neu ddau o'u cyfeillion ar daith mewn bws mini a oedd yn cael ei yrru gan eu gweinidog.

Cychwyn o'r Marian ac yna dros Fwlch yr Oerddrws ac am gyfeiriad mwynder Maldwyn.

Ac yno rhwng pentrefi Adfa a Llanllugan cyrhaeddwyd y Filltir Aur – sef dros filltir o gennin Pedr a blannwyd gan Mr Maldwyn Evans a'i chwaer Ivy Evans. Mae Maldwyn sydd bellach dros ei 90 oed yn aelod ffyddlon o gapel yr Adfa, ble mae Euron hefyd yn weinidog. Arferai Maldwyn fod yn arddwr yng Ngregynog. Mae'r olygfa ar hyd y Filltir Aur yn ddim llai na gogoneddus – llafur cariad.

Wedi teithio i bentref Llanllugan aeth y criw yn eu blaenau i gapel Moreia, Llanfair Caereinion ble roedd Huw Gwilym Humphreys a'i gymar Eiry Jones wedi paratoi te a llond y lle o gacennau cartref blasus yn y festri.

Pnawn hyfryd a pawb wedi mwynhau – i ble tybed fydd y trip nesaf?

**Euron Hughes**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*